

## **CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWDYD DROS 'ZOOM', NOS LUN 6ed Gorffennaf, 2020**

### **PRESENNOL**

Cyng. Eifion Williams (Cadeirydd), Cyng. Alun Morris, Cyng. John Owen, Cyng. Nerys Dobson, Cyng. Arwel Ll. Jones, Cyng. Anwen Jones, Cyng. Dylan Jones, Delyth Algieri (clerc).

Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r cyngor cymuned i'r cyfarfod cyntaf dros 'Zoom'.

### **YMDDIHEURIADAU**

Cyng. Hefin Martin, Cyng Austin Roberts

### **CADARNHAU'R COFNODION**

Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd ar y 24ain, Chwefror 2020.

### **CYMERADWYO CYFRIFON Y CYNGOR SYDD YN DIWEDDU 31ain MAWRTH, 2020**

Nododd y clerc fod y cyfrifon yn barod i'w hanfon ymlaen i'r archwiliwr allanol BDO ac eglurwyd y gwahaniaethau yn y cyfanswm taliadau rhwng y blynyddoedd 2018/19 a 2019/20.

Cymeradwyodd aelodau'r cyngor y cyfrifon sydd yn diweddau 31ain Mawrth, 2020 drwy godi ei dwylo.

### **MAES PARCIO GEGIN WEN, LLANDDOGED A MAES PARCIO CADAIR IFAN GOCH, MAENAN**

Codwyd fod ddau safle maes parcio angen tipyn o gynnal a chadw o ran strimio a thaclo. Trafodwyd y mater a phasiwyd aelodau'r cyngor drwy godi eu dwylo i ofyn i'r Clerc gysylltu gyda chontractwyr lleol am amcangyfrif y gost o gynnal a chadw'r ddau safle.

### **CAIS GAN BENNAETH YSGOL LLANDDOGED**

Derbyniodd y Cadeirydd cais gan Bennaeth Ysgol Llanddaged i gael gosod y cerrig a addurnwyd gan y disgyblion yr Ysgol yn ddiweddar yn ystod y cyfnod y 'Lockdown' Cornafeirws mewn lle sefydlog yn y pentref.

Trafodwyd y mater ac awgrymwyd eu gosod mewn concrit ar yr arhosfa bws yn y pentref. Cadarnhaodd gweddill aelodau'r cyngor eu bod yn derbyn yr awgrymiad yma drwy godi eu dwylo a gofynnwyd i'r clerc ofyn i gontractwyr lleol am bris i osod y cerrig.

### **GORSAF RHEILFFORDD DOLGARROG**

Nododd Cyng Austin Roberts fod yr orsaf rheilffordd Dolgarrog yn cael eu hail agor yn fuan ar ôl y gwaith sydd wedi cael eu cwblhau ar y llyfogydd yn ddiweddar. Eglurodd hefyd y bydd yr Orsaf yma yn cael eu hail enwi yn 'Gorsaf Rheilffordd Maenan a Dolgarrog'.

### **CYNNAL A CHADW**

1. Angen llenwi tyllau yn y ffordd wrth fynedfa Pen Llan, Llanddaged.
2. Angen llenwi tyllau yn y ffordd allt Trwyn Swch, Llanddaged.
3. Angen llenwi tyllau yn y ffordd wrth ymyl Llidiart y mynydd, Llanddaged.
4. Nifer o Lwybrau Cyhoeddus angen sylw – gwrychoedd wedi gordyfu a.y.b.
5. Cais i gael gwared â'r bin yn y pentref oherwydd fod
6. Pryder fod ceir yn parcio tu allan i'r ysgol ac yn creu tagfeydd. Cyng. Austin Roberts am ymholi gyda Mr William Roberts, Adran Priffyrdd Cyngor Conwy i gael diweddariad a pa bryd fydd y llinell melyn yn cael eu paentio ar y ffordd gyferbyn ar ysgol.